Allech chi fod yn ofalydd Cysylltu Bywydau?

Cysylltu Bywydau

De Ddwyrain Cymru

Gweithio mewn Partneriaeth:

Caerffili, Casnewydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Torfaen

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.
This document is available in Welsh, and in other languages and formats on request.

Ydych chi'n berson positif a all wneud gwahaniaeth i fywyd rhywun?

Allech chi rannu agweddau o'ch bywyd cartref, teuluol a chymunedol?

Yn Cysylltu Bywydau, mae oedolyn gydag anghenion gofal neu gefnogaeth yn cael eu paru gyda gofalydd Cysylltu Bywydau cymharus.

Mae gofalyddion y Cynllun yn rhannu eu cartref, eu teulu a'u bywyd cymunedol gyda'r person, gan roi cymorth iddynt ddatblygu a chadw sgiliau byw annibynnol, cyfeillion a chysylltiadau yn eu hardal leol.

O ganlyniad, mae llawer o'n gofalyddion yn datblygu perthynas tymor hir a gwerthfawr, gan groesawu'r person i mewn i'w teulu.

Mae ein gofalyddion yn dod o lawer o wahanol gefndiroedd ac maent yn dewis gofalu am amrywiaeth o resymau. Nid yw profiad ffurfiol yn angenrheidiol, ond mae brwdfrydedd, cymhelliant ac ymroddiad yn hanfodol.

Sut mae'r cynllun yn gweithio?

Os ydych yn gwneud cais i ddod yn ofalydd, fe'ch cefnogir drwy broses asesu drylwyr a byddwch yn derbyn cefnogaeth gyfredol gan y tîm Cysylltu Bywydau. Cynigir amrywiaeth o hyfforddiant i ofalyddion, ac fe'i talir am y lleoliadau y maent yn darparu.

Gall ofalyddion Cysylltu Bywydau gynnig dri math o leoliad:

- **Tymor hir -** lle mae unigolyn yn byw gyda chi yn eich cartref.
- **Seibiant -** lle mae unigolyn yn aros gyda chi am gyfnodau byr.
- **Cefnogaeth Sesiynol -** lle mae unigolyn yn treulio ychydig oriau gyda chi ar y tro yn rheolaidd.

Beth allwn ni gynnig i chi?

- Hyblygrwydd i weithio o gartref
- Rôl foddhaus a gwerthfawr
- Taliadau am y lleoliadau yr ydych yn eu darparu
- Cefnogaeth ac ymweliadau rheolaidd gan un o'n tîm
- Cyfleoedd hyfforddi cyfredol

I ddarganfod mwy am y Cynllun gallwch:

Ffonio: **01443 864784**

e-bost: **lleolioedolion@caerffili.gov.uk**

Ewch i'n gwefan: **www.caerffili.gov.uk/cysylltubywydau**

Gweithio mewn Partneriaeth: